

## **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)**

**Practis Deintyddol St  
James; Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Abertawe Bro  
Morgannwg**

Dyddiad yr Arolygiad: 13  
Mawrth 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 14 Mehefin  
2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb .....	4
4.	Canfyddiadau .....	5
	Ansawdd profiad y claf .....	5
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	8
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....	13
5.	Y Camau Nesaf.....	15
6.	Methodoleg .....	16
	Atodiad A.....	18

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol St James yn 71 Heol Walter, Abertawe, SA1 4QA, ar 13 Mawrth 2017.

Esboniodd AGIC sut roedd Practis Deintyddol St James yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn arwain at ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol St James yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Abertawe yn ne Cymru. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae Practis Deintyddol St James yn bractis cymysg sy'n darparu arlwy o wasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, un hylenydd, tair nyrs ddeintyddol (sy'n cyflenwi dyletswyddau yn y dderbynfa hefyd), a rheolwr practis.

Mae Practis Deintyddol St James yn bractis Hyfforddiant Deintyddol Sylfaenol, ac yn cynnig hyfforddiant deintyddol galwedigaethol i ddeintyddion sydd newydd gymhwyso.

### 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol St James yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir.
- Dangosodd y staff broses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael a oedd yn dangos bod offer pelydr-X a chyfarpar dadheintio'n cael eu defnyddio â'r nod o hyrwyddo diogelwch staff a chleifion.
- Roedd cofnodion y cleifion yn fanwl ac yn drylwyr.
- Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch-staff y practis a pherchennog y practis.

Rydym yn argymhell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Mwy o wiriadau rheolaidd o'r cyffuriau a'r cyfarpar brys i sicrhau eu bod ar gael ac yn ddiogel i'w defnyddio mewn achos o argyfwng claf (llewyg).

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

**Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y practis. Dywedodd y cleifion a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan y practis.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC ymysg cleifion er mwyn cael eu sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Dychwelwyd cyfanswm o 34 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

*"Mae 'na wastad croeso cynnes"*

*"A dweud y gwir, rwy'n edrych ymlaen at fynd at y deintydd am eu bod ymhlith rhai o'r bobl fwyaf dymunol y gallech gwrdd â nhw. Maen nhw'n weithwyr proffesiynol o'r radd flaenaf sy'n gwneud i chi deimlo'n gartrefol ac yn gysurus"*

*"Wastad yn gymwynasgar iawn ac yn esbonio fy nhriniaeth i mi. Hapus iawn gyda'r gwasanaeth"*

*"Mae'r cyngor a roddir yn ddefnyddiol iawn"*

### **Cadw'n iach**

Gwelsom fod gwybodaeth am hyrwyddo iechyd ar gael i gleifion, er mwyn helpu i hyrwyddo'r angen iddynt ofalu am hylendid ac iechyd y geg eu hunain. Roedd gan y practis deledu yn yr ystafell aros a oedd yn dangos clipiau fideo i gleifion o rai gweithdrefnau deintyddol, megis brwsio dannedd a chynnal a chadw fframiau dannedd.

Yn ddieithriad, dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn credu eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth ddeintyddol. Wrth ymateb i'r cwestiwn a oeddent yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth, ychwanegodd rhai cleifion eu sylwadau cadarnhaol eu hunain gan gynnwys "wastad", "digonol" a "da iawn".

### **Gofal ag urddas**

Gwelsom fod y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion yn gyfeillgar, yn barchus, ac yn broffesiynol.

Roedd yr holiaduron AGIC a gwblhawyd yn dangos bod cleifion yn fodlon iawn ar lefel y gofal a thriniaeth a ddarperir ar eu cyfer. Dywedodd pob claf a ddychwelodd holiaduron wedi'u cwblhau wrthym eu bod wedi cael croeso gan staff y practis.

Roedd y practis yn darparu arlwy o driniaethau deintyddol preifat a thriniaethau deintyddol y GIG. Roedd gwybodaeth am brisiau ar gyfer triniaethau deintyddol ar gael i'w gweld yn yr ardal aros, yn ogystal â chostau am driniaethau deintyddol y GIG. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth ei chostio.

Dywedwyd wrthym fod y practis wrthi'n datblygu ei wefan ei hun, a fydd yn y dyfodol yn gallu darparu gwybodaeth ychwanegol am y practis ar gyfer cleifion.

### **Gofal amserol**

Canfuom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym nad oeddent wedi profi oedi o ran cael eu gweld gan ddeintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dywedodd y rhai a oedd wedi profi oedi mai ychydig iawn o oedi yn unig oeddent wedi'i brofi a bod y practis wedi ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra. Gwelsom fod gan y practis bolisi ar waith ar gyfer hysbysu cleifion pe bai apwyntiadau'n rhedeg yn hwyr, a gwnaethom gadarnhau hyn â staff, a ddywedodd wrthym y byddai naill ai'r derbynnnydd neu'r deintydd yn hysbysu'r cleifion am unrhyw oedi.

Roedd rhif ffôn cyswllt y tu allan i oriau ar gael i gleifion ei ffonio pe bai angen triniaeth ddeintyddol arnynt ar frys. Roedd y rhif ffôn wedi'i arddangos yn glir ar bwys drws blaen y practis, ac ar neges peiriant ateb y practis. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a ddychwelodd holiaduron yn datgan eu bod nhw'n gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth y tu allan i oriau.

### **Gofal unigol**

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i sicrhau y gallai cleifion ag anawsterau symudedd gael mynediad at ei wasanaethau. Roedd y practis mewn adeilad teras addasedig ac roedd y ddwy ystafell driniaeth ddeintyddol ar lawr daear y practis.

Gwelsom fod enw a chymwysterau un o'r deintyddion yn unig wedi'u harddangos i'r cleifion eu gweld. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ystyried



sut y gall ddangos manylion yr ail ddeintydd sy'n ymarfer yn unol â Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.<sup>1</sup> Cytunodd y practis i ystyried y modd mwyaf priodol o wneud hyn.

Sicrhaodd y practis fod gwybodaeth ar gael i gleifion am sut i leisio pryder (cwyn) ac roedd systemau ar waith i gleifion roi adborth.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd copi o'r weithdrefn i'w weld yn ardal aros y cleifion. Roedd yn rhaid i gleifion a oedd yn dymuno cael copi i ddarllen neu gymryd ymaith ofyn i aelod o staff. Gwnaethom argymhell y gallai'r practis ystyried sicrhau bod copïau o'r weithdrefn gwyno ar gael yn rhwydd i'r cleifion i'w darllen a'u cymryd ymaith, heb orfod gofyn i aelod o staff. Cytunodd rheolwr y practis i wneud y newid hwn.

Roedd y practis yn cadw ffolder cwynion, a gwelsom fod y practis wedi derbyn ychydig iawn o gŵynion (ysgrifenedig) ffurfiol. Dangoswyd proses ar gyfer cynnal cofnodion manwl o gŵynion llafar ac ysgrifenedig, gan alluogi'r practis i adolygu cwynion, cymryd camau i ddatrys unrhyw broblemau, a rhoi adborth yn briodol i gleifion.

Dywedodd y practis wrthym fod holiaduron cleifion yn cael eu dosbarthu ymhlith cleifion drwy gydol y dydd, i gasglu eu safbwyntiau am y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd ar eu cyfer. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn gallu gwneud hyn yn ddiennw. Roedd rheolwr y practis yn ystyried yr adborth ac yn ei drafod â thîm ehangach y practis gyda golwg ar wella profiadau cleifion.

---

<sup>1</sup> <https://archive.gdc-uk.org/Dentalprofessionals/Standards/Documents/Standards%20for%20the%20Dental%20Team.pdf> Safon 6.6.10

## ***Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol***

**Gwelsom fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom fod adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan.**

**Roedd cofnodion cleifion yn fanwl ac yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi cael eu cynllunio i hyrwyddo diogelwch a lles cleifion.**

**Dangoswyd proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.**

**Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod yr offer pelydr-X a'r cyfarpar dadheintio'n cael eu defnyddio mewn modd diogel.**

**Er bod y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu gwirio, gwelsom fod angen gwneud hyn yn fwy rheolaidd.**

### **Gofal diogel**

Canfuom fod gan y practis drefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a phobl sy'n ymweld ag ef.

Roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl pob golwg, y tu fewn a'r tu allan. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg.

Gwelsom fod offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol fannau o amgylch y practis a gwelsom dystiolaeth bod gan y practis contract ar waith i wasanaethu'r offer hyn bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal ar offer trydanol y practis o fewn y 12 mis diwethaf, i sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwelsom fod gan y practis fwyler nwy, ond nid oedd wedi cael ei wasanaethu o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Dygwyd hyn i sylw rheolwr y practis, a roddodd sicrwydd ar lafar y byddai'n mynd i'r afael â'r mater. Ar ddiwrnod yr arolygiad, trefnodd rheolwr y practis i'r bwylwr gael ei wasanaethu ar yr un dydd, a gwelsom dystysgrif i ddangos ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Gwelsom fod asesiadau risg ysgrifenedig manwl wedi cael eu cwblhau a oedd yn nodi peryglon posibl a chamau i leihau risg.

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) yn ddiogel a gynhyrchir gan y practis. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael

ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu gan y cwmni contractwyr. Roedd gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff domestig) yn cael ei gasglu trwy drefniadau â'r cyngor sir lleol. Gosodwyd offer gwahanu amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel.

Er bod gan y practis gyfleusterau addas ar gyfer cael gwared ar wastraff hylendid benywaidd yn nhoiled y staff, nid oedd yr un cyfleusterau ar gael yn nhoiled y cleifion. Gwnaethom argymhell bod y practis yn ystyried y canllawiau<sup>2</sup> i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag arfer gorau. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Gwnaethom edrych ar yr holl gyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis. Roedd y rhain yn lân ac yn daclus. Roedd y lloriau a'r arwynebau yn yr ystafelloedd triniaeth yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau croes-heintio. Gwelsom fod un man bach ar ochr un cwpwrdd wedi'i ddifrodi a bod angen ei atgyweirio. Dywedwyd wrthym fod y practis eisoes wedi nodi hyn ac y byddai'n cael ei ddisodli'n fuan.

Gosodwyd ystafell ddadheintio ar wahân, ac roedd yn cydymffurfio â'r egwyddorion a nodwyd yn nogfen ganllaw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).<sup>3</sup> Ymddangosai fod y cyfarpar dadheintio mewn cyflwr da wrth i ni ei arolygu. Roedd un peiriant awtoclaf<sup>4</sup> yn cael ei ddefnyddio ac roedd tystysgrifau gosod/arolygu ar gael a oedd yn dangos ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal a bod cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer profion ar offer glanhau a sterileiddio, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, i ddangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

Canfuom fod y practis yn glanhau offer deintyddol â llaw cyn eu prosesu trwy'r peiriant awtoclaf. Dangosodd y staff broses ddadheintio drylwyr a gwelsom

---

<sup>2</sup> <https://www.gov.uk/guidance/healthcare-waste>

<sup>3</sup> Mae dogfen [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 \(Diwygiad 1\)](#) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

<sup>4</sup> Siambwr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy ofodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

dystysgrifau a oedd yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio.

Er bod glanhau â llaw yn ddull derbyniol o lanhau offer deintyddol, gwnaethom argymhell y gallai'r practis o bosibl ystyried cyflwyno dull glanhau awtomataidd, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd yr offer yn cael eu cadw mewn bagiau wedi'u selio er mwyn atal croesheintio. Roedd y dyddiadau ar gyfer defnyddio neu ailbrosesu offer (eu glanhau a'u sterileiddio) wedi cael eu cofnodi ar y pecynnau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar i nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu fel rhan o'r gwaith monitro cyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd.

Gwelsom fod cyfarpar a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu). Gwelsom gofnodion hefyd a oedd yn dangos bod y cyffuriau a'r cyfarpar yn cael eu gwirio bob mis. Gwnaethom argymhell i berchennog y practis y dylid cynnal archwiliadau bob wythnos ar gyfer y cyffuriau a'r cyfarpar brys, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU).<sup>5</sup> Cadarnhaodd rheolwr y practis y byddai hyn yn cael ei roi ar waith. Gwelsom fod dyddiad rhai o'r cyfarpar brys, yn benodol chwistrellau, wedi mynd heibio. Gwnaethom hysbysu rheolwr y practis o'n canfyddiadau a rhoddodd sicrwydd ar lafar y byddai camau cywirol yn cael eu cymryd. Ar ddiwrnod ein harolygiad, rhoddwyd cadarnhad i ni fod chwistrellau newydd wedi cael eu harchebu.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod:***

- ***pecyn llawn a ddefnyddir mewn achos brys ar gael yn y practis***
- ***gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y cyffuriau a'r cyfarpar brys, yn unol â'r safonau ansawdd a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU)***

---

<sup>5</sup> Mae'r [Cyngor Dadebru \(DU\)](#) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

Gwelsom fod y cyffuriau a'r cyfarpar brys wedi'u lleoli mewn gwahanol rannau o'r practis. Gwnaethom argymhell y gallai'r practis o bosibl ystyried storio'r cyffuriau brys a'r cyfarpar brys gyda'i gilydd i sicrhau mynediad rhwydd pe bai argyfwng. Cytunodd y practis i ystyried gwneud hyn.

Gwelsom gofnodion hyfforddi a oedd yn dangos bod hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd y staff yn gyfredol.

Daethom i'r casgliad fod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn am fod yr holl ddogfennau a gwybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod y staff i gyd wedi diweddarau eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio, a'u bod yn bodloni'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddu pelydr-X wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd fel rhan o'r gwaith monitro ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth gynnal sganiau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen.

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith i hybu a diogelu lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu mewn perygl. Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion, a gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos hyn.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo y gallent leisio unrhyw bryderon a oedd yn ymwneud â'r gwaith wrth uwch-staff y practis, a'u bod yn hyderus y byddai'r rhain yn derbyn sylw.

### **Gofal effeithiol**

Gwelsom fod tîm y practis yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.

Roedd y practis yn cynnal amrediad o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau clinigol i nodi meysydd i'w gwella a gwiriadau ar gyfarpar i sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol. Rhoddwyd sicrwydd i ni fod y practis yn ymgymryd ag amrediad o archwiliadau.

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y cofnodion. Roedd y sampl hon yn ystyried cofnodion a wnaed gan ddeintyddion a hylenyddion a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd cofnodion cleifion mewn fformat electronig. Roedd y nodiadau a wnaed yn fanwl iawn ac

yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi cael eu cynllunio i hyrwyddo diogelwch a lles cleifion.

Yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, roedd y rhesymau dros gynnal y sganiau pelydr-X a'r hyn a ganfuwyd gan y deintyddion wedi cael eu cofnodi.

## ***Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth***

**Roedd y practis deintyddol yn cael ei reoli a'i weithredu'n effeithlon gan reolwr y practis a thîm bach o staff brwdfrydig. Dangoswyd strwythur rheoli ac iddo linellau eglur o adrodd ac atebolrwydd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch-staff y practis a'r tîm ehangach. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol.**

Mae Practis Deintyddol St James yn bractis deintyddol sydd wedi'i hen sefydlu, ac mae'n ffurfio rhan o grŵp mwy o bractisau deintyddol o'r enw United Dental yn ne Cymru. Roedd gan reolwr y practis gyfrifoldeb cyffredinol am redeg y practis o ddydd i ddydd, ac roedd yn cael ei gefnogi yn hyn o beth gan dîm rheoli ehangach. Pan wnaethom nodi meysydd i'w gwella, dangosodd y tîm rheoli barodrwydd ac ymroddiad i fynd i'r afael â'r rheini.

Dywedodd y staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi gan bob un o aelodau tîm y practis. Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu yn y practis yn dda, a bod trafodaethau anffurfiol yn cael eu cynnal bob dydd rhwng y staff. Roedd cyfarfodydd ffurfiol y practis yn cael eu cynnal yn llai aml, am nad oedd tîm y staff yn teimlo bod angen eu cynnal yn amlach. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallant drafod unrhyw broblemau â chydweithwyr a rheolwyr yn ystod y trafodaethau anffurfiol.

Gwelsom fod arlwy o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwelsom fod gan y practis broses ar waith i sicrhau bod y staff wedi darllen a deall y polisiâu.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn meysydd y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn eu 'hargymell yn fawr iawn'.

Gwelsom fod y practis wedi gweithredu system arfarnu yn ddiweddar ar gyfer yr holl staff, a bod cynlluniau ar waith i sicrhau y cynhaliwyd hyn yn flynyddol.

Canfuom fod deintyddion a staff nyrsio wedi eu cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod yswiriant indemniad ar waith ganddynt.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B, i amddiffyn eu hiechyd eu hunain ac iechyd cleifion rhag heintiau. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis gadw canlyniadau imiwneiddiadau staff i sicrhau bod cofnodion yn gyflawn. Cytunodd y practis i wneud hyn. Roedd cyngor a chymorth iechyd galwedigaethol ar gael trwy'r bwrdd iechyd.

Roedd un o'r deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd ei dystysgrifau cofrestru ag AGIC wedi'u harddangos fel sy'n ofynnol dan reoliadau deintyddiaeth breifat. Gwelsom dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y deintyddion sy'n gweithio yn y practis. Roedd y rhain wedi cael eu rhoi o fewn y tair blynedd diwethaf, fel sy'n ofynnol dan y rheoliadau.



## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol St James yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn gyraeddadwy, yn amserol, yn fesuradwy, yn benodol, yn uchelgeisiol ac yn synhwyrol. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>6</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.<sup>7</sup> Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

<sup>6</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

<sup>7</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio cyfarpar a'r adeilad
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## Atodiad A

### Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

**Practis:** Practis Deintyddol St James

**Dyddiad yr Arolygiad:** 13 Mawrth 2017

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>					
	Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.				
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>					
Tudalen 10	Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod: <ul style="list-style-type: none"><li>pecyn llawn a ddefnyddir mewn achos brys ar gael yn y practis, a bod</li><li>gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer yr offer a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn</li></ul>	Safonau lechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.9 Rheoliadau Deintyddiaet h Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u	Cadarnhawyd eu bod ar waith.  Roedd gwiriadau rheolaidd ar waith bob mis, ac maent bellach wedi dechrau cael eu cynnal bob wythnos	Chris Wills-Wood	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>achos brys</p> <p>Mae hyn yn unol â'r safonau sicrhau ansawdd a nodir gan y Cyngor Dadebru (DU).</p> <p><i>Y Cyngor Dadebru (DU), Safonau Ansawdd ar gyfer arfer a hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd, Gofal Sylfaenol</i></p>	<p>diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14 (2)</p>	<p>i ddilyn canllawiau perthnasol cyfredol.</p>		
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>					
	Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.				

### Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (llythrennau bras):** Chris Wills-Wood

**Teitl:** Cyfarwyddwr Clinigol a Llywodraethu

**Dyddiad:** 7/04/2017